

Adroddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Cangen Cymru)

Dolen Lesotho 29 Medi – 6 Hydref 2007



Yr Afon Oren sy'n tarddu o Lesotho ac sy'n llifo i Fôr yr Iwerydd ac sy'n ffurfio ffin rhwng Namibia a De Affrica.

Adroddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Cangen Cymru) Ymweliad â Lesotho 29 Medi – 6 Hydref

Cynnwys

Tudalen

Diolchiadau.....	3
Crynodeb o'r argymhellion.....	4
Cefndir yr ymweliad	5
Seminar ar sgiliau pwyllgorau	7
Ymweliad ag Ysgol Uwchradd Molapo, Leribe	12
Cyfarfod â'i Ardderchogrwydd Peter Fay, Llysgennad Iwerddon	14
Cyfarfod â Harper Brown, Cyfarwyddwr Gwlad, elusen Sentebale....	15
Derbyniad Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad....	16
Ymweliad â phrosiect HIV/AIDS y Groes Goch, Quthing	19

Atodiad:

Atodiad 1 - Rhaglen yr ymweliad



Yr olygfa dros Quithing.

DIOLCHIADAU

Hoffai Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ddiolch i:

- Yr Anrhydeddus L Makhaola a'r Anrhydeddus Nlthoi Motsamai, Cyd-Lywyddion Cangen Senedd Lesotho o'r Gymdeithas am eu croeso cynnes a'u cydweithrediad wrth drefnu'r ymweliad;
- Ms. L Ramohlanka, Clerc Cynulliad Cenedlaethol Lesotho am helpu i gydgyssylltu'r seminar ar sgiliau clerco;
- Mr. Dyfan Jones o Dîm Cymorth Seneddol Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig i Senedd Lesotho am helpu i gydgyssylltu'r seminar ar sgiliau clerco ac am ei gynnal;
- Dolen Cymru Lesotho (Wales Lesotho Link) am helpu i gydgyssylltu ymweliadau astudio ag Ysgol Uwchradd Molapo a Quthing.



Mae llawer o bobl yn dal i fyw mewn rondavels.

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

1. Mae Pwyllgor Gweithredol Cangen Cymru o'r Gymdeithas yn cymeradwyo'r argymhellion a ganlyn:

- **Bod yr awgrymiadau a'r cwestiynau a ddeilliodd o'r seminar yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan Lefarydd Cynulliad Cenedlaethol Lesotho (tudalen 9).**
- **Bod y Gangen yn ystyried sut y gall roi rhagor o gymorth yn y dyfodol i sicrhau bod pwyllgorau newydd yn cael y cymorth parhaus sydd ei angen arnynt wrth iddynt gael eu sefydlu gan symud tuag at ddyfodol sefydledig a chynaliadwy (tudalen 10).**
- **Bod Cangen Cymru o'r Gymdeithas yn cymeradwyo gwaith staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Cathays gydag Ysgol Uwchradd Molapo ac yn argymhell y dylid tynnu sylw at y prosiect fel esiampl o fenter lwyddiannus sydd wedi creu cysylltiad rhwng ysgolion a phobl ifanc Cymru a Lesotho (tudalen 12).**
- **Bod unrhyw bresenoldeb iechyd o Gymru yn Lesotho yn ymuno â'r grŵp anffurfiol o sefydliadau cymorth Ewropeaidd a gadeirir gan Lysgennad Iwerddon (tudalen 13).**
- **Bod y Gangen yn parhau mewn cysylltiad â Llysgenhadaeth Iwerddon yn Lesotho gyda'r nod o fonitro, a lle y bo'n briodol, cynnig cymorth i unrhyw geisiadau eang ar gyfer gwaith cryfhau democratiaeth yn Lesotho (tudalen 13).**
- **Bod Gweithrediaeth y Gymdeithas angen adroddiad ar ariannu prosiect Quthing gan Dolen Cymru ar frys er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth bresennol i gangen Quthing o'r Groes Goch yn Lesotho (tudalen 16).**

CEFNDIR YR YMWELIAD

2. Sefydliad sy'n hyrwyddo democratiaeth seneddol ledled y Gymanwlad yw Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae holl Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gangen Cymru sydd wedi bod yn aelod gweithredol o'r Gymdeithas. Bu'n bosibl i Aelodau'r Cynulliad a swyddogion gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir yn rhyngwladol a chynnal gweithgareddau o fewn y Cynulliad. Mae'r gweithgareddau hyn wedi creu cyfleoedd:
 - i rannu arbenigedd a chreu perthnasau cynhyrchiol â deddfwrfeydd eraill;
 - i wella effeithiolrwydd y Cynulliad ar draws yr ystod o'i gyfrifoldebau deddfwriaethol a gweithrediadol; drwy ddysgu o arfer gorau; ac
 - i hyrwyddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. Yn 2005, penderfynodd Cangen Cymru y dylai ystyried datblygu cysylltiadau dwyochrog agosach â senedd arall fel rhan allweddol o'i strategaeth, a hynny er mwyn darparu rhaglen ehangach o weithgarwch cynaliadwy. O ystyried y cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy genedl, a thebygrwydd o ran maint, poblogaeth a threfniadau etholiadol, dewisodd Gweithrediaeth y Gangen berthynas ddwyochrog hirdymor â Lesotho.
4. Yn 2005, ymwelodd dirprwy o Gynulliad Cenedlaethol Cymru â Lesotho i archwilio'r posibilrwydd o gysylltiad hirdymor. Roedd ei argymhellion yn cynnwys:
 - dylai'r Gangen weithio tuag at ddatblygu canolbwynt strategol ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol y Cynulliad Cenedlaethol, gan adeiladu ar y cysylltiadau presennol a'r rhai sy'n cael eu datblygu rhwng Cymru a Lesotho; a
 - dylid sefydlu rhaglen o ymweliadau astudio a gwaith ar gyfer Aelodau a swyddogion rhwng y ddau Gynulliad.
5. Mae'r meysydd cymorth ar gyfer Aelodau a nodwyd yn ystod yr ymweliad yn cynnwys:
 - meithrin gallu ymhlith clercod Seneddol (a chlercod pwyllgorau yn benodol);
 - Addysg a gwybodaeth i'r cyhoedd (her neilltuol mewn gwlad sydd â thraddodiad llafar, lle nad oes gan 80% o'r boblogaeth drydan);
 - llyfrgell yr Aelodau a chymorth ymchwil;

- y materion ymarferol sy'n ymwneud â gwahanu elfennau deddfwriaethol a gweithredol systemau llywodraethu.
6. Rhai o'r materion gwleidyddol o ddi-ddordeb i'r naill a'r llall a bwysleisiwyd yn ystod yr ymweliad oedd :
- rôl Aelodau sy'n ferched;
 - arfer gorau wrth graffu ar waith Gweinidogion;
 - arfer gorau mewn pwyllgorau pwnc.
7. Ym mis Gorffennaf 2007, noddodd Cangen Cymru o'r Gymdeithas ymweliad â Chymru gan Ddirprwy Glerc y Cynulliad, tri chlerc pwyllgor a Llyfrgellydd y Senedd. Treuliodd y grŵp 10 niwrnod yng Nghymru'n cysgodi eu cymheiriaid yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad.
8. Wrth ystyried y posibilrwydd o drefnu trydydd ymweliad cyfnewid yn 2007, nodwyd strwythur pwyllgorau newydd Cynulliad Cenedlaethol Lesotho fel maes y gall y Cynulliad gynorthwyo ag ef drwy sôn am ei brofiadau ei hun. Cymeradwyodd Pwyllgor Gweithredol Cangen Cymru o'r Gymdeithas gynnig i anfon grŵp bach o ddirprwyon i Lesotho yn cynnwys Michael German AC a John Grimes, Pennaeth dros dro Gwasanaeth y Pwyllgorau gyda'r amcanion a ganlyn:
- **Amcan 1: Meithrin gallu Seneddol:** Cynnig gwybodaeth am sut y mae pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio; sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Lesotho yn ymwybodol o strwythurau a rhaglenni pwyllgorau gan ddefnyddio Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel astudiaeth achos er mwyn gwella'u dirnadaeth o systemau pwyllgorau er mwyn sicrhau bod gan Bwyllgorau Portffolio Cynulliad Cenedlaethol Lesotho y gallu i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon pan fyddant yn cyfarfod am y tro cyntaf.
 - **Amcan 2: Datblygu ymwybyddiaeth o Dolen Cymru-Lesotho:** Ymweld ag enghreifftiau o raglenni datblygu sy'n cysylltu Cymru a Lesotho er mwyn cynyddu dealltwriaeth Aelodau'r Cynulliad o'r gweithgareddau sydd ar waith a chyflwyno adroddiad ar faterion sy'n ymwneud â datblygu gweithgarwch pellach.
9. Ceir manylion y rhaglen ar gyfer yr ymweliad yn Atodiad 1.

SEMINAR AR SGILIAU PWYLLGORAU

10. Cyflwynwyd y seminar gan Michael German AC a John Grimes, Pennaeth dros dro Gwasanaeth y Pwyllgorau. Diben cynnwys aelod etholedig a swyddog yn y seminar oedd sicrhau bod pob pwnc yn cael ei ystyried o wahanol safbwynt gan roi ehangder i'r seminar.

11. Roedd 5 Cadeirydd Pwyllgor a 17 o Ddirprwy Glercod, Clercod Cynorthwyol ac aelodau o staff Seneddol yn bresennol yn y seminar. Roedd y cymysgedd o wleidyddion a swyddogion yn golygu bod ystod ac ansawdd y drafodaeth yn well.

12. Agorwyd y seminar gyda chyflwyniad ar strwythur Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel cefndir i'r hyn y byddai cynrychiolwyr Cynulliad Cymru'n ei ddweud am y pwyllgorau.

13. Ar ôl hynny, cynhaliwyd trafodaeth mewn grwpiau gan ganolbwyntio ar y rhesymau pam bod system bwyllgorau'n ychwanegu gwerth i Gynulliad neu Senedd a'r manteision neu'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn. Yn dilyn hyn, cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth ar y gwahanol fathau o bwyllgorau posibl, y gwahanol ffyrdd o'u sefydlu, eu swyddogaethau gwahanol a'r ffyrdd o ddewis pa un sy'n briodol o dan amgylchiadau penodol .

14. Roedd y sesiwn nesaf yn edrych ar sut y bydd Clerc yn mynd ati i roi cymorth mewn pwyllgor ac yn trafod ffyrdd ymarferol o fodloni'r gofynion amrywiol sy'n angenrheidiol i bwyllgor weithio'n effeithiol. Rhoddwyd copïau o amrywiaeth o ddeunydd a ddefnyddir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r cyfranogwyr. Yn ogystal â darparu enghreifftiau o sut y caiff y pwyllgorau eu cynorthwyo yn ymarferol, roedd y papurau hyn hefyd yn adnoddau y gellir eu defnyddio fel enghreifftiau o sut i ddatblygu eu systemau eu hunain yn y dyfodol.

15. Yna, trafodwyd rôl y Cadeirydd a beth yw'r berthynas rhwng y rôl hon a rôl Aelodau eraill, rôl Gweinidogion y Llywodraeth a rôl y Clerc. Daeth y diwrnod cyntaf i ben drwy sôn unwaith eto



Trafodaeth fywiog



Cadeirydd y Pwyllgor Diwygio Seneddol mewn trafodaeth â Mike German.

am sgiliau Clercio ac edrych ar sut y gall Clerc frifio'r Cadeiryddion ac Aelodau .

16. Un o'r materion a godwyd yn ystod y diwrnod oedd cwestiwn ynghylch sut i gyflwyno system bwyllgorau—yn arbennig, sut i newid sefydliad nad oes ganddo brofiad o hyn. Mewn ymateb i'r mater hwn, dosbarthwyd deunydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ddarparwyd i frifio Cadeiryddion newydd ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ar ôl iddynt gael eu penodi yn dilyn etholiad 2007.

17. Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda chyflwyniad ar y newidiadau yn Lesotho gan yr Anrhydeddus L Rakuoane, Cadeirydd Pwyllgor Diwygio Seneddol Lesotho. Yn dilyn hyn, ac yng ngoleuni trafodaeth y diwrnod

blaenorol, penderfynwyd addasu'r rhaglen a drefnwyd a hwyluso cyfres o drafodaethau grŵp ar sut y gall Senedd Lesotho symud ymlaen o'i sefyllfa bresennol. Yn gyntaf, nodwyd rhai o'r materion ymarferol allweddol sy'n wynebu Senedd Lesotho.

18. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i rannu'n bum grŵp llai, gyda Chadeirydd pwyllgor fel aelod a hwylusydd ym mhob grŵp. Roedd hyn yn sicrhau y mynegwyd sawl barn wahanol ym mhob grŵp. Cododd y grwpiau nifer o gwestiynau i wneud penderfyniad arnynt a gwnaed hefyd nifer o awgrymiadau o ran sut y gall y Pwyllgorau ddatblygu:

- **Arian.** Awgrymwyd yn ystod y trafodaethau nad yw'r lefel bresennol o gymorth ariannol i bwyllgorau'n ddigonol ac mai dim ond digon o arian i gynnal y sefyllfa fel y mae sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd angen cyllideb dreigl tair blynedd i roi'r system bwyllgorau ar waith yn llawn. Bydd angen cronfa benodol ar gyfer y gwasanaeth seneddol. Dylai'r Senedd lobio a mynnu bod y Llywodraeth yn rhoi rhagor o arian iddi'r flwyddyn nesaf er mwyn gallu cynorthwyo'r pwyllgorau a gwneud gwaith ymchwil iddynt. Dylid ystyried cymorth allanol gan gyrrff anllywodraethol i helpu i ddatblygu pwyllgorau yn y cyfamser.
- **Amser.** Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd oherwydd ystyrir hwn yn rhwystr i gynnydd. Awgrymwyd y byddai'n bosibl sefydlu'r Pwyllgorau (ar ffurf pwyllgorau cysgodol efallai) cyn ailstrwythuro adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- **Staff.** Mae angen mynd i'r afael â'r mater o staffio pwyllgorau. Ystyriwyd cymorth cyfreithiol ac ymchwil digonol fel materion y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt. Codwyd y cwestiwn a fyddai'r pwyllgorau'n gallu gweithredu heb fod iddynt swyddogaeth gyfreithiol ac ymchwil. Nodwyd y byddai angen staff ychwanegol i gynorthwyo'r pwyllgorau ond y byddai hyn yn amlwg yn cymryd rhywfaint o amser i'w drefnu. Awgrymwyd y dylid penodi staff dros gyfnod o dair blynedd. Yn y cyfamser, gall y Twrnai Cyffredinol gynorthwyo'r pwyllgorau, a hynny drwy eu hangen am gymorth cyfreithiol, drwy gynnig bod rhai aelodau o'i staff yn mynd ar secondiad i'r Senedd. Gellir cael rhagor o gymorth cyfreithiol drwy ddefnyddio arbenigwyr o'r Gweinyddiaethau perthnasol. Gellir hefyd defnyddio staff y Twrnai Cyffredinol i helpu Aelodau i ddrafftio'u Mesurau Aelod Preifat. Bydd hefyd angen ystyried datblygu gallu ymchwil i gynorthwyo'r pwyllgorau dros gyfnod o dair blynedd. Cynigiwyd ateb arall dros dro, sef benthg staff ar secondiad o adrannau perthnasol y Llywodraeth. Awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio gallu ymchwil y Senedd i helpu'r Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid manteisio ar gymorth y llyfrgell wrth recriwtio arbenigedd ymchwil. Mae angen cyflwyno'r strwythur arfaethedig ar gyfer pwyllgorau gerbron yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyflym. Gellir defnyddio'r strwythur presennol dros dro gan ddefnyddio mwy o staff yn ôl yr angen.
- **Lleoliad / Logisteg.** Ystyriwyd seilwaith digonol fel un o'r prif rwystrau i weithredu pwyllgorau'n effeithiol. Cynigiwyd y syniad o adeiladu dau adeilad parod fel lleoliad addas ar gyfer ystafelloedd pwyllgora fel ateb yn ogystal â defnyddio dwy siambr y Senedd. Os trefnir bod cyfarfodydd llawn yn dechrau yn y prynhawn, byddai hwn yn ateb dros dro i'r broblem. Efallai y gofynnir i'r Dirprwy Glerc gydgyssylltu'r mater o ddiffyg lleoliad ar gyfer pwyllgorau.

- **Hyfforddiant.** Rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol drefnu gweithdy ar gyfer y clercod ar sut i baratoi adroddiadau pwyllgorau a dylai hefyd drefnu gweithdy i'w hun er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n digwydd!

19. Diben y sesiwn nesaf oedd cadarnhau rhai o'r gwersi a ddysgwyd drwy ystyried rhai sefyllfaoedd ymarferol y gall Clerc eu hwynebu a thrafod y ffyrdd y dylai ymateb iddynt.

20. Daeth y seminar i ben gyda thrafodaeth gyffredinol ar weithgareddau'r ddau ddiwrnod a thrafodaeth bellach ar yr hyn roedd angen digwydd nesaf er mwyn symud pethau ymlaen. Cynigiwyd nifer o syniadau gan y grŵp:

- Mae angen sicrhau bod pwyllgorau'n gallu cyllidebu a'u bod yn gyfrifol am gyllidebau;
- Mae angen sicrhau bod Clercod a Chadeiryddion yn gwella'u gwybodaeth am sut y mae pwyllgorau'n gweithio - awgrymwyd y dylid ystyried 'cenhadaeth ddysgu' i Gymru;



Roedd llawer o Aelodau Seneddol a Chlercod yn bresennol yn y seminar.

- Mae hefyd angen hyfforddiant ar Aelodau pwyllgorau;

- Mae angen rhaglen ehangach ar wella dealltwriaeth o swyddogaethau pwyllgorau— yn cynnwys Gweinidogion a swyddogion y Llywodraeth yn bennaf;

- Mae angen sicrhau bod pwyllgorau'n paratoi Blaengynlluniau Gwaith;

- Mae angen sicrhau bod rhaglen a reolir wedi'i threfnu sy'n ategu datblygiad pellach system bwllgorau ar gyfer Lesotho.

21. Y diwrnod canlynol, aeth y dirprwyon ar daith o amgylch Senedd Lesotho gyda'r Clerc a'r Dirprwy Glerc a chafwyd trafodaeth gyffredinol ar y ffordd y mae'n gweithredu.

Argymhellion

22. Mae Cangen Gymru o'r Gymdeithas yn argymhell bod yr awgrymiadau a'r cwestiynau a ddeilliodd o'r seminar yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Lesotho.



John Grimes yn gwneud pwynt cryf i'r grŵp. Mae Clerc y Senedd yn crafu'i ben!

23. Mae hefyd yn argymhell bod y Gangen yn ystyried sut y gall roi rhagor o gymorth yn y dyfodol i sicrhau bod y pwyllgorau newydd yn cael y cymorth parhaus sydd ei angen arnynt wrth iddynt gael eu sefydlu gan symud tuag at ddyfodol sefydledig a chynaliadwy.



Cadeirydd pwyllgor yn cynnal sesiwn grwp gyda chlercod.

Rhestr Bresenoldeb y Seminar

Yr Anrhydeddus F. T. Mabethoa AS	Yr Anrhydeddus L. Rakuoane AS	Yr Anrhydeddus R Marumo AS
Yr Anrhydeddus K. Mathaba AS	Yr Anrhydeddus Ntsekhe AS	
L. Ramohlanka, Clerc	M. Maluke, Clerc	
R Maluke, Dirprwy Glerc	S. Mpesi, Dirprwy Glerc	K. Manamotha, Dirprwy Glerc Cynorthwyol
MThabane, Clerc Pwyllgor	L. Majoro, Clerc Pwyllgor	M. Mothibe, Clerc Pwyllgor
M. Molapo, Clerc Pwyllgor	M. Mohenoa, Clerc Pwyllgor	M. Mohlaahatsa, Clerc Pwyllgor
R. Nthabo, Clerc Pwyllgor	M Moeti, Clerc Pwyllgor	M. Mokitimi, Clerc Cynorthwyol
M. Motanyane, Clerc Cynorthwyol	M. Tsepene, Clerc Cynorthwyol	M. Seloanyane, Dehonglwr Cynorthwyol

YMWELIAD AG YSGOL UWCHRADD MOLAPO, LERIBE

24. Bu Michael German AC yn gysylltiedig â'r rhaglen efeillio rhwng yr ysgol hon ac Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd ers ymweliad diwethaf y Gymdeithas ym mis Hydref 2005.
25. Yn ystod yr ymweliad hwnnw, nododd Pennaeth yr ysgol ei bryder ynghylch delio â'r 20 o blant sydd wedi colli dau riant i HIV/Aids yn ei ysgol. Ar y pryd hwnnw, nododd mai gwartheg godro oedd eu hangen ar yr ysgol fwyaf, a hynny oherwydd bydd y cynnyrch a'r incwm o'r cynnyrch yn gallu cynnal y plant a rhoi deiet gwell i bobl ifanc ei ysgol.



Myfyrwyr Ysgol Uwchradd Molapo.



Mynd heibio i gae ar gyfer tyfu cynydau ar y ffordd allan o'r ysgol i'r adeiladau fferm.

26. Yn y cyfamser, bu Ysgol Uwchradd Cathays, gyda chymorth Michael German AC, yn codi arian i ddiwallu'r angen hwn. Codwyd digon o arian i godi ffensys, prynu parlwr godro a sied wartheg, tŷ gwydr, hadau, system ddyfrhau yn cynnwys tŵr a phwmp dŵr newydd a gwartheg godro.

27. Ar adeg yr ymweliad, nododd Michael German fod ffens wedi'i godi o amgylch y cae lle caiff cnwd ei dyfu a'r tir pori, bod y tŷ gwydr yn cael ei ddefnyddio a bod cnwd wedi'u hau yn y cae. Roedd y tir pori wedi cael ei ddyfrhau gyda system beipiau, lle'r oedd y dŵr yn cael ei bwmpio o afon ar waelod y tir i dŵr ar y pen arall. Roedd y deunydd ar gyfer

adeiladu parlwr godro a sied wartheg wedi cyrraedd ac roedd y gwaith adeiladu ar fin dechrau'r diwrnod ar ôl yr ymweliad.

28. Yr unig beth ar ôl i'w wneud oedd prynu'r gwartheg Brown Swiss. Mae'r rhain yn ddrud iawn ac yn ôl



Gwartheg godro Brown Swiss yn y sied wartheg.



Bydd y fferm foch yn ffynhonnell gynaliadwy o gig.

pob tebyg bydd yn rhaid eu prynu o Dde Affrica.

29. Mae'r prosiect cwbl gynaliadwy hwn ar fin cael ei gwblhau. Y cam nesaf yng nghynllun yr ysgol fydd adeiladu llety ar gyfer y plant amddifad.

Argymhellion

30. Mae Cangen Cymru o'r Gymdeithas yn cymeradwyo gwaith staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Cathays gydag Ysgol Uwchradd Molapo ac yn argymhell y dylid tynnu sylw at y prosiect fel esiampwl o fenter lwyddiannus sydd wedi creu cysylltiad rhwng ysgolion a phobl ifanc Cymru a Lesotho.



Brisblocciau yn barod i ddechrau adeiladu. (Greg o'r Corfflu Heddwch sy'n darparu cymorth rheoli prosiect)

CYFARFOD Â LLYSGENNAD IWERDDON - EI ARDDERCHOGRWYDD PADDY FAY

31. Cyfarfu Michael German â Llysgennad Iwerddon i drafod y gwaith y mae Cymru'n ei wneud yn Lesotho.
32. Yr unig bresenoldeb o Lywodraeth y DU yn Lesotho yw swyddog o'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol sy'n gweithio yn Llysgenhadaeth Iwerddon. Mae'r Llysgennad yn cadeirio grŵp anffurfiol o sefydliadau ac asiantaethau cymorth Ewropeaidd sy'n gweithio yn Lesotho. Diben y grŵp hwn yw sicrhau bod y sefydliadau hyn yn gyson o ran eu dull o weithio a bod y gwaith yn cael ei gydgyssylltu'n well. Mae'r Llysgennad yn argymhell y dylai'r presenoldeb iechyd o Gymru ddod yn aelod o'r grŵp hwn pan gaiff ei swydd sefydlu yn Lesotho.
33. Daeth yn amlwg fod Llywodraeth Iwerddon yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu cynnig eang i Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig. Diben y cynnig fydd datblygu'r gwaith cryfhau democratiaeth y bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gysylltiedig ag ef yn ystod yr ymweliad hwn.
34. Efallai y bydd yn synhwyrol i Gangen Cymru o'r Gymdeithas gadw llygad agos ar y cynnig hwn wrth iddo ddatblygu ac ystyried pa gymorth y gall ddarparu yn y dyfodol.

Argymhellion:

35. **Argymhellir bod unrhyw bresenoldeb iechyd o Gymru yn Lesotho yn ymuno â'r grŵp anffurfiol o sefydliadau cymorth Ewropeaidd a gadeirir gan Llysgennad Iwerddon (Tudalen 14).**
36. **Argymhellir bod y Gangen yn parhau mewn cysylltiad â Llysgenhadaeth Iwerddon yn Lesotho gyda'r nod o fonitro, a lle y bo'n briodol, cynnig cymorth i unrhyw geisiadau eang ar gyfer gwaith cryfhau democratiaeth yn Lesotho.**

CYFARFOD Â HARPER BROWN—CYFARWYDDWR GWLAD, ELUSEN SENTEBALE.

37. Cyfarfu Michael German a John Grimes â Harper Brown, Cyfarwyddwr Gwlad elusen Sentebale (Forget me Not yn Sesotho) a sefydlwyd gan Ei Fawrhydi y Tywysog Harry a'i Fawrhydi y Tywysog Seeiso. Cenhadaeth Sentebale yw trawsnewid bywydau plant amddifad Lesotho a'r plant hynny sy'n agored i niwed - sy'n cynnwys plant anabl, plant sy'n cael eu cam-drin, plant sy'n sâl, sydd wedi'u gadael ar ôl neu eu hesgeuluso. Dywedodd Harper Brown wrthym am ymweliad y Tywysog Harry â'r elusen yn y dyfodol agos, ac fel yr oeddent

yn ystyried nifer o brosiectau penodol iawn yn ymwneud â phlant. Maent hefyd yn aelodau o'r 'European donor group' a gadeirir gan Llysgennad Iwerddon.

DERBYNIAD CANGEN CYMRU O GYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD

38. Cynhaliodd Cangen Cymru o'r Gymdeithas dderbyniad yn y gwesty, Maseru Sun Hotel, lle canolbwyntiodd y gwesteion ar Senedd Lesotho a'r cyrff anllywodraethol sy'n gysylltiedig â'r gwaith datblygu yn Lesotho. Roedd tua 60-80 o bobl yn bresennol yn y derbyniad i friffio'r dirprwyon ar faterion cyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys dirprwyon o'r UE, Llysgennad Iwerddon, sawl adran o sefydliadau cymorth y cenhedloedd unedig a nifer fawr o swyddogion seneddol. Anerchodd Dirprwy Lefarydd y Cynulliad Cenedlaethol y gynulleidfa ac ymatebodd Michael German.



Yr Anrhydeddus Ddirprwy Lefarydd yn rhoi het Basotho i Mike German yn nerbyniad Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

YMWELIAD MIKE GERMAN AC AG ARDAL QUTHING GYDA'R GROES GOCH YN LESOTHO

39. Mae Dolen Cymru wedi bod yn gweithio gydag asiantaethau eraill yn cynnwys Gweinidogaeth Iechyd Lesotho a'r Groes Goch yn Lesotho i ddatblygu prosiect yn ardal Quthing. Nod y prosiect yw ehangu prosiect sydd eisoes yn bodoli i ardal wledig fawr o fewn y dosbarth.
40. Yn y bôn, mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag atal HIV/AIDS, a hefyd mesurau canfod a chynorthwyo. Mae'r prosiect presennol a gaiff ei redeg gan y Groes Goch yn Lesotho yn gweithio drwy rwydwaith o hwyluswyr yn y pentref a gaiff eu hyfforddi gan y Groes Goch yn y tri maes (atal, canfod a chynorthwyo) ac yna cânt hwy eu cynorthwyo gan hyfforddiant a chymorth parhaus gan dîm canolog bach sydd wedi'i leoli yn Quthing, ger yr ysbyty lleol.
41. Mae'r ardal a gaiff ei ehangu yn cynnwys ardal y cyngor sy'n cynnwys 14,200 o etholwyr. Dim ond ar droed y gellir cyrraedd llawer o'r pentrefi a gellir cyrraedd y rhan fwyaf o'r pentrefi eraill ar lwybr. Dim ond ambell un sydd â signal ffôn symudol .
42. Cyfarfûm â saith aelod o'r Cyngor lleol yn eu swyddfa. Mae ysgrifennydd y Cyngor yn defnyddio gliniadur a gaiff ei bŵer o baneli solar.



Cyfarfod ag aelodau o'r cyngor lleol. Gellir gweld y panel solar sy'n rhoi pŵer i'r gliniadur y tu allan i ddrws y swyddfa sydd ar y dde.

43. Un atgof a fydd yn aros gyda mi yw nifer y mynwentydd—un ym mhob pentref, a nifer y beddau newydd ynddynt. Clywais straeon torcalonnus o blant a oedd wedi colli dau riant a'r anawsterau o ran eu cynorthwyo.

44. Yn ogystal â hyn, ymwelais â'r ysbyty yn Quthing a siaradais â'r uwcharolygydd meddygol a'r uwch feddyg. Awgrymwyd i mi bod yna nifer gynyddol o bobl yn dioddef o HIV/AIDS. Mae yna ostyngiad isel yn nifer yr achosion o bobl sydd newydd eu heintio (pobl ifanc), a chynnydd mawr yn nifer y bobl 30 oed a hŷn sydd wedi'u heintio ers cryn amser. Esboniwyd beth yw sgil effeithiau'r cyffuriau gwrth-firaol a pha mor bwysig yw diet os yw'r cyffuriau'n mynd i weithio.



*Clinig y Groes
Goch yn Quthing*

45. Nododd yr ysbyty gofal lliniarol a phrinder nyrsys a meddygon fel y meysydd problem allweddol. Caiff llawer o nyrsys a meddygon eu denu gan gyflogau uwch y tu allan i'r wlad. Maent hefyd yn brin o le ac offer, yn enwedig peiriannau CD4 i gymryd samplau o gleifion.
46. Bydd y prosiect y mae Dolen Cymru'n ei sefydlu yn derbyn nawdd gan nifer o asiantaethau. Awgrymwyd i'r Cyngor y byddai'r prosiect yn dechrau ym mis Gorffennaf eleni. Gan fod gobeithion pobl wedi'u codi, mae yna berygl na fydd Cymru'n cael enw da os caiff y prosiect ei oeddi'n ormodol. Bydd y nawdd hwn yn bennaf ar gyfer hyfforddi hwyluswyr yn y pentref a chydabyddiaeth i'r gwirfoddolwyr hyn (200 Maluti [£14]) a threuliau ar ben hyn i'r tîm canolog (3 swydd ychwanegol, cerbyd ychwanegol, gliniaduron a llungopiwr).
47. Nid wyf yn sicr faint o waith a wnaed hyd yn hyn o ran rhoi'r pecyn cymorth hwn at ei gilydd. Byddwn yn argymhell bod Gweithrediaeth y Gymdeithas yn gofyn am adroddiad ar y mater hwn gan Dolen Cymru cyn gynted â phosibl a'i fod yn trosglwyddo'r wybodaeth bresennol i'r Groes Goch yn Quthing.


Argymhellion

- 48. Argymhellir bod Gweithrediaeth y Gymdeithas angen adroddiad ar ariannu prosiect Quthing gan Dolen Cymru ar frys, a hynny er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth bresennol i gangen Quthing o'r Groes Goch yn Lesotho.**



Mae'r ardal o amgylch Quthing yn fynyddog iawn. Mae'n ardal brydferth iawn ond mae'n peri anawsterau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus .

Atodiad 1 – Rhaglen o Weithgareddau



Rhaglen ar gyfer Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad Ymweliad â Lesotho 30 Medi – 4 Hydref 2007

Dirprwyon:

Michael German OBE AC

John Grimes

Trefnydd y rhaglen:

Peter Kellam

Ysgrifenyddiaeth

Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Ffôn: +44 (0)29 2089 8642

E-bost: Peter.Kellam@wales.gsi.gov.uk

Dydd Sul 30 Medi

Prynhawn: Dirprwyon yn cynnull ym Maseru.
Ymweliad â'r ardal leol dan ofal Dolen

Gyda'r nos: Cyfarfod â Harper Brown, Cyfarwyddwr Gwlad, elusen Sentebale.

Dydd Llun 1 Hydref

Drwy'r dydd Seminar yn Maseru Sun Hotel

Dydd Mawrth 2 Hydref

Drwy'r dydd Seminar yn y Maseru Sun Hotel yn parhau

Gyda'r nos Derbyniad Cangen Cymru o'r Gymdeithas yn y Maseru Sun Hotel

Dydd Mercher 3 Hydref

Bore Ymweliad â Senedd Lesotho

Prynhawn John Grimes

2.00pm Michael German yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Molapo, ardal Leribe a drefnwyd gan Dolen Cymru

6.00pm Teithio nôl i Maseru

Dydd Iau 4 Hydref

08.00	Car Dolen Cymru yn cyrraedd Lancers Inn. Mike German yn teithio i Quthing gyda staff Dolen. Cyrraedd tua chanol dydd.
Prynhawn	Cyrraedd yr Orange River Hotel, Quthing
Gyda'r nos	Swper gyda Mr Mohlokonya o'r Groes Goch yn Lesotho


Dydd Gwener 5 Hydref

08.30am	Gadael y gwesty
09.00am – 12.45pm	Ymweliad â'r Groes Goch yn Lesotho
12 canol dydd	Cinio yn yr Orange River Hotel
Prynhawn	Teithio nôl i Maseru a chyrraedd Lancers Inn

Dydd Sadwrn 6 Hydref

06.30am	Gadael y gwesty a theithio gyda staff Dolen Cymru i faes awyr Maseru.
---------	---

Y Seminar ar sgiliau pwyllgorau.



Dydd Iau 4 Hydref

08.00	Car Dolen Cymru yn cyrraedd Lancers Inn. Mike German yn teithio i Quthing gyda staff Dolen. Cyrraedd tua chanol dydd.
Prynhawn	Cyrraedd yr Orange River Hotel, Quthing
Gyda'r nos	Swper gyda Mr Mohlokonya o'r Groes Goch yn Lesotho


Dydd Gwener 5 Hydref

08.30am	Gadael y gwesty
09.00am – 12.45pm	Ymweliad â'r Groes Goch yn Lesotho
12 canol dydd	Cinio yn yr Orange River Hotel
Prynhawn	Teithio nôl i Maseru a chyrraedd Lancers Inn

Dydd Sadwrn 6 Hydref

06.30am	Gadael y gwesty a theithio gyda staff Dolen Cymru i faes awyr Maseru.
---------	---

Y Seminar ar sgiliau pwyllgorau.



Fferm Ysgol Uwchradd Molapo.



Gwaith Hyrwyddo lechyd ym maes HIV/AIDS — Quthing.



